ADDYSG BELLACH & ADDYSG UWCH

Gweithredoedd polisi allweddol mae UNSAIN am eu gweld gan lywodraeth Cymru yn y dyfodol

Yn ogystal â blaenoriaethau maniffesto cyffredinol UNSAIN Cymru, hoffai ein haelodau yn y sector Addysg Bellach ac Addysg uwch i lywodraeth nesaf Cymru weithredu yn y meysydd a ganlyn.

Addysg Bellach

Iechyd meddwl a straen sy'n gysylltiedig â gwaith yn benodol

- Arolygon staff blynyddol sy'n adrodd yn ôl i lywodraeth Cymru ynghylch absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen yn y gweithle.
- Hyfforddiant blynyddol gorfodol i'r holl staff ar sut i adnabod arwyddion straen.
- Polisïau i alinio diwrnodau salwch yn sgil iechyd meddwl ag absenoldeb oherwydd salwch corfforol (nid yw polisïau'n nodi hyn).

Newid hinsawdd

- Polisi gweithredu amgylcheddol mewn Addysg Bellach, e.e. pwynt gwefru trydan ar gyfer ceir; disodli neu leihau'r defnydd o blastig mewn ffreuturau; disodli cynwysyddion bwydydd parod.
- Buddsoddi mewn ynni gwyrdd wrth ystyried adeiladau newydd a gosod paneli ynni; dylai neu gallai unrhyw adeilad newydd yn y dyfodol gynnwys % o ynni gwyrdd neu sy'n hunan-gynhyrchu.

Addysg Uwch

- Dim cynnig gwaith ar gontract allanol: ni ddylai cyflogwyr ddefnyddio 'is-gwmnïau dan berchnogaeth lwyr' i dorri telerau ac amodau.
- Mae prifysgolion yn darparu gwasanaeth cyhoeddus a dylent ymgysylltu â Chyngor Partneriaeth y Gweithlu.

UNISON
Cymru Wales